Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# GWEITHIO I'R COLEG CYMRAEG...

#gwneudgwahaniaeth








www.colegcymraeg.ac.uk/swyddi

CYMRAEG

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# EIN GWERTHOEDD

Os wyt ti'n berson sy'n cyflawni gwaith o safon uchel, eisiau creu effaith gwirioneddol ac yn cydweithio'n grêt gydag eraill...

...ymgeisia am swydd gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol!

## UCHELGEISIOL

Rydyn ni'n cynnig **arweiniad a chefnogaeth** o'r radd flaenaf ac rydyn ni'n **ddibynadwy** wrth gyflawni gwaith o safon uchel.

## BLAENGAR

Fel tîm **blaengar ac arloesol**, rydyn ni'n rhoi pwyslais ar greu **impact effaith gwirioneddol.**

## CYDWEITHREDOL

Rydyn ni'n **cydweithio** i greu a **chyfoethogi** darpariaeth Gymraeg a dwyieithog sy'n **gynhwysol i bawb.**

## 35

Ein oriau gwaith ar gyfer swyddi llawn amser yw 35 awr yr wythnos.

## 21%

Bydd y Coleg Cymraeg yn cyfrannu dros 21% o dy gyflog yn flynyddol i dy bensiwn pan fyddi di'n dod yn aelod o Gynllun Pensiwn USS.

## CRAIDD

10:00 - 12:00
14:00 - 15:30

Oriau craidd y Coleg Cymraeg yw 10:00-12:00 a 2:00-3:30 a gelli di orffen am 3:00 ar ddydd Gwener.

## HYBLYG

Rydyn ni'n gwerthfawrogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ac yn ystyried pob cais i weithio'n hyblyg, o weithio'n rhan amser i weithio'n ystod tymor ysgolion yn unig.

Os gall gweithio hyblyg dy helpu di a llwyddo i gynnal gwaith y Coleg Cymraeg yna byddwn ni'n ceisio darparu ar ei gyfer.

## H Y B R I D

Rydyn ni wedi dechrau gweithio'n hybrid sef cyfuniad o weithio yn y swyddfa ac o adref am rhan o'r wythnos.

## 28+4

Bydd 28 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn gyda ti i'w defnyddio. Bydd hefyd 4 diwrnod pan fydd y swyddfa ar gau yn ystod y flwyddyn.

# BETH SYDD GAN Y STAFF I DDWEUD AM WEITHIO I NI?

Mae'r Coleg yn **lle braf iawn i weithio,** a phan mae pethau'n mynd yn dda mae'n **lot fawr o hwyl!** A chi wir yn gwybod pa fath o sefydliad yw man gwaith pan mae sefyllfa anodd yn codi. Pan oedd salwch teuluol rhai blynyddoedd yn ôl roedd **cefnogaeth a gofal** y Prif Weithredwr heb ei ail – a dwi'n **gwerthfawrogi hynny hyd heddiw.**

Mae'r Coleg o hyd yn edrych ar **sut allwn wella** fel mudiad, boed hynny ar yr agenda **gwrth hiliol**, neu'r **agenda sero carbon**. Mae'n sefydliad hynod o **gefnogol i ddatblygiad staff** ac ar ôl rhai blynyddoedd o ansicrwydd yn y byd gwaith, roedd **cefnogaeth a dealltwriaeth y Coleg** yn rhywbeth roeddwn ni fel aelod staff yn falch iawn o dderbyn.

Mae 'na **rhywbeth arbennig** o wybod fy mod i, drwy weithio i'r Coleg, yn cael **cyfrannu at ddyfodol y Gymraeg** a chael gweithio i hybu, hyrwyddo a **sicrhau bod yr iaith yn rhan o fywydau pobl ifanc** Cymru heddiw.



WWW.COLEGCYMRAEG.AC.UK/SWYDDI

# GWEITHIO I NI

Yn y Coleg Cymraeg mae amrywiaeth o  rolau sy'n rhoi cyfleoedd arbennig i ni weithio ar draws Cymru gyfan gyda'n holl bartneriaid yn y sector ôl-orfodol, sef y colegau addysg bellach, darparwyr prentisiaethau a'r prifysgolion.

Rydyn ni hefyd yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru, ysgolion a nifer fawr o sefydliadau sy'n ymwneud ag addysg, y Gymraeg a chyflogadwyedd.

Os wyt ti'n unigolyn **trefnus, brwdfrydig** sy'n gallu **cydweithio** yn effeithiol gydag eraill i rannu, datblygu a gweithredu **syniadau** -
**y Coleg Cymraeg yw'r lle i ti!**

Os wyt ti eisiau **gwneud gwahaniaeth** a bod yn rhan o wireddu'r nod o gael **1 miliwn o siaradwyr Cymraeg** erbyn 2050 -
**y Coleg Cymraeg yw'r lle i ti!**

Os wyt ti eisiau sicrhau bod addysg ôl-orfodol Gymraeg a dwyieithog yn **agored ac yn gynhwysol i bawb** -
**y Coleg Cymraeg yw'r lle i ti!**

**WWW.COLEGCYMRAEG.AC.UK/SWYDDI**

# GWEITHIO TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG - CEFNOGAETH

## MEWNOL

Rydym i gyd yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Coleg Cymraeg. Mae hwn yn golygu bod ein e-byst mewnol, sgyrsiau ffôn a chyfarfodydd mewnol i gyd yn digwydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydyn ni hefyd yn paratoi ein dogfennau i gyd yn Gymraeg.

## ALLANOL

Rydyn ni'n hapus i weithio yn Gymraeg, Saesneg neu yn ddwyieithog gydag unigolion y tu allan i'r Coleg - ac yn ceisio cynnal pob dim yn Gymraeg lle bo hynny'n bosib.

## CEFNOGAETH

Os wyt ti wedi dysgu Cymraeg neu os yw'r Gymraeg yn famiaith i ti - gall y Coleg Cymraeg gynnig **cefnogaeth benodol** wrth i ti weithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Efallai bod gweithio trwy'r Gymraeg yn rhywbeth newydd i ti, felly bydd gweithio i'r Coleg Cymraeg yn **gyfle gwych i ti ddatblygu'r sgiliau** hyn mewn **awyrgylch gefnogol**.

WWW.COLEGCYMRAEG.AC.UK/SWYDDI

# AMDANOM NI

Corff **cynllunio strategol a chenedlaethol** yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd â'r Gymraeg wrth wraidd ein gweledigaeth.

Rydym yn **arwain datblygiad addysg a hyfforddiant** cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn y sector ôl-orfodol yng Nghymru, sy'n **agored a chynhwysol i bawb** yng Nghymru beth bynnag fo'u cefndir.

Rydym yn gwneud hyn drwy **gydweithio** gyda phrifysgolion, sefydliadau addysg bellach a darparwyr prentisiaethau.

Mae ein holl waith yn cyfrannu at gyrraedd y nod o gael **1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**, fel rhan o strategaeth Llywodraeth Cymru.

Mae ein **gwerthoedd yn bwysig** i ni a'r gwerthoedd hyn sy'n gwreiddio holl waith y Coleg wrth i ni fod yn **uchelgeisiol, blaengar a chydweithredol.**



WWW.COLEGCYMRAEG.AC.UK/SWYDDI



# LLEOLIADAU SWYDDFEYDD

Mae gan y Coleg Cymraeg 4 swyddfa ar draws Cymru ac mae rhai staff yn gweithio'n hybrid trwy weithio rhan benodol o'r wythnos o gartref.

## CAERFYRDDIN

Swyddfa Caerfyrddin yw prif swyddfa'r Coleg Cymraeg
Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ

## CAERDYDD

Ty Phoenix, 8 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF10 4LJ

## BANGOR

Stryd y Deon, Bangor LL57 1UT

## ABERYSTWYTH

Ty Loveden, Stryd-y-bont, Aberystwyth SY23 1QB